| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 21 Ionawr 2025 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Awdur yr adroddiad** | Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Teitl** | Setliad Ariannol Dros Dro Llywodraeth Cymru ar gyfer y Llywodraeth Leol, 2025/26 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ar setliad dros dro 2025/26 Llywodraeth Cymru ar gyfer y Llywodraeth Leol a'r goblygiadau ar gyfer gosod cyllideb 2025/26.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'n ofyniad cyfreithiol i'r Cyngor osod cyllideb fantoledig cyn dechrau pob blwyddyn ariannol a gosod y lefel Treth y Cyngor sy'n deillio o hynny. Ar 18 Chwefror 2025 bydd y Cabinet yn ystyried adroddiad i osod cyllideb fantoledig a Threth y Cyngor ar gyfer 2025/26. Bydd yr adroddiad wedyn yn cael ei ystyried gan y Cyngor llawn ar 20 Chwefror 2025.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Nodi effaith Setliad Dros Dro Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26 (a geir yn adran 4.1 yr adroddiad) a'r pwysau diweddaraf ar y gyllideb (adran 4.2 yr adroddiad).

3.2 Ystyried adborth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (a geir yn adran 4.4 yr adroddiad).

# 4. Manylion yr adroddiad

### 4.1 Setliad Dros Dro 2025/26 y Llywodraeth Leol

4.1.1 Cafodd y Cyngor wybod beth oedd y setliad dros dro ar gyfer 2025/26 ar 11 Rhagfyr 2024. Mae Cyllid Allanol Cyfun dros dro'r Cyngor, sy'n cynnwys y Grant Cynnal Refeniw a'n cyfran ni o gronfa Ardrethi Annomestig Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26 yn dod i £215.222 miliwn.

4.1.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio tablau fel bod modd cymharu lefelau cyllid 2024/25 a 2025/26 ar draws cynghorau Cymru. Mae ffigwr 2024/25 wedi'i ddiwygio gan Lywodraeth Cymru ers ei gyhoeddi'n gyntaf. Mae cyllid 2025/26 y Cyngor yn cael ei gymharu gyda ffigwr newydd ar gyfer Cyllid Allanol Cyfun 2024/25, sef £205.729 miliwn. Cynnydd o £9.493 miliwn neu 4.6%.

4.1.3 Mae'n bwysig deall y manylion y tu ôl i'r ffigwr newydd, gan ei fod yn effeithio ar 2025/26. Yn dilyn cyllideb Llywodraeth y DU fis Hydref 2024, dyrannodd Lywodraeth Cymru gyllid ychwanegol yng nghanol y flwyddyn i'r Llywodraeth Leol, sydd wedi'i grynhoi yn y tabl isod.

| **Addasiadau 2024/25 i'r Cyllid Allanol Cyfun** | **£miliwn** |
|---|---|
| Cyflog Athrawon | 0.619 |
| Pensiynau Athrawon | 2.069 |
| Cyflog staff nad ydynt yn addysgu | 1.799 |
| **Cyfanswm** | **4.487** |

Mae hyn wedi'i gyfuno â'r gyllideb sylfaenol, ond gan fod hyn yn symudiad diweddar mae wedi cynyddu'r cyllid yn 2025/26 dros y 4.6% a ddyfynnir. Mae gwir effaith y setliad dros dro yn gynnydd o £14.427 miliwn neu 7% (cyllid 2025/26 y Cyngor o gymharu â Chyllid Allanol Cyfun gwreiddiol 2024/25 o £200.795 miliwn).

4.1.4 Mae cynnydd Sir Ddinbych yn cymharu'n ffafriol gyda chyfartaledd Cymru o 4.3% ac mae'n dilyn cynnydd yn nifer y disgyblion a data prydau ysgol am ddim a ddefnyddir yn y fformiwla i ddosbarthu cyllid. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni gydnabod bod yna gynnydd cysylltiedig yn y galw am wasanaethau o ganlyniad.

4.1.5 O fewn y ffigwr a gyhoeddwyd, mae'r llywodraeth wedi datgan y canlynol:

- Bod yr holl godiadau cyflog ar gyfer swyddi addysgu a swyddi nad ydynt yn rhai addysgu wedi'u cynnwys yn y setliad

- Bod cost galluogi awdurdodau i barhau i gwrdd â chostau ychwanegol cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal wedi'i chynnwys yn y setliad

4.1.6 Cyfeiriodd Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU at newidiadau i gyfraddau a throthwyon cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr o 1 Ebrill 2025. Bydd y cynnydd yn y cyfraniadau yn effeithio ar gost gweithwyr y mae'r Cyngor yn eu cyflogi'n uniongyrchol yn ogystal â chael effaith anuniongyrchol yn sgil cynnydd yng nghostau cyflenwyr, yn enwedig cost gofal a gomisiynir gan ddarparwyr gofal. Mae'r cynnydd yng nghostau uniongyrchol cyfraniadau cyflogwyr yn sicr ac wedi'i gynnwys ym mhwysau'r Cyngor ar gyfer 2025/26. Bydd angen cynnwys amcangyfrif o'r costau anuniongyrchol hefyd. Mae yna ansicrwydd o hyd o ran cyllid ar gyfer y pwysau yma gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU; mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Lywodraeth y DU ddarparu cyllid yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2025/26 yn dilyn asesiad o gost gweithwyr sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn golygu na fyddwn yn gwybod beth yw'r sefyllfa o ran cyllid i gwrdd â'r cynnydd yng nghyfraniadau YG cyflogwyr tan ar ôl i ni osod cyllideb 2025/26.

4.1.7 Disgwylir y setliad terfynol fis Mawrth. O ystyried ystod y cynnydd (ar draws y gwahanol gynghorau) mae Llywodraeth Cymru wedi dweud eu bod yn agored i drafod darparu cyllid gwaelodol ychwanegol yn y gyllideb derfynol, a byddai hynny yn diogelu cynghorau sydd wedi derbyn cynnydd is yn y cyllid. Nid yw'r llywodraeth yn gallu rhoi sicrwydd na fydd newidiadau eraill yn cael eu gwneud rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol, ond nid yw'n bwriadu gwneud newidiadau i'r dulliau na'r data sy'n tanategu dosbarthiad y setliad.

4.1.8 Nid yw'r setliad dros dro'n darparu unrhyw arwydd o'r setliadau yn y dyfodol, ond mae'r llywodraeth wedi dweud ei bod yn disgwyl setliadau amlflwyddyn yn dilyn adolygiad gwario Llywodraeth y DU yn ystod hanner cyntaf 2025. Maent yn gobeithio gallu darparu mwy na setliad blwyddyn i'r llywodraeth leol yn y dyfodol, a fydd yn helpu i gynllunio yn y tymor canolig.

4.1.9 Mae rhan o raglen lywodraethu Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i sicrhau nad yw awdurdodau lleol yn cael eu rhwystro gan fiwrocratiaeth ddiangen. Mae rhaglen waith i leihau nifer y grantiau ar wahân a delir i awdurdodau lleol yn parhau i symud grantiau i'r setliad. O ganlyniad mae 'trosglwyddiadau i mewn' a 'throsglwyddiadau allan' wedi'u cynnwys yn y setliad drafft. Nid ydynt yn diogelu cyllid grant at ddiben neu fenter benodol,

gydag unrhyw grant a drosglwyddir i mewn i'r setliad yn cynnwys y cyfrifoldeb parhaus hwnnw dros ddarparu'r fenter honno. Mae grantiau digartrefedd wedi'u trosglwyddo i mewn, sy'n ymwneud â'r dull 'neb wedi'i adael allan' a'r grant atal digartrefedd dewisol.

4.1.10 Yn gryno, tra bod y cynnydd yn y setliad yn uwch na'r dybiaeth gynllunio a ddefnyddiwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n gadarnhaol ac yn cael ei groesawu, nid yw'n datrys yr heriau ariannol a wynebir gan y Cyngor wrth osod cyllideb fantoledig ar gyfer 2025/26 – sydd dal angen cyfuniad o arbedion a chynnydd yn Nhreth y Cyngor.

**Gosod Cyllideb 2025/26**

**4.2 Pwysau ar y gyllideb**

4.2.1 Mae ein diweddariadau ariannol tymor canolig sy'n cael eu cyflwyno i'n pwyllgorau amrywiol yn ystod y flwyddyn wedi amlygu bod y galw am wasanaethau gan ein cymunedau yn cynyddu a bod cymhlethdod yr anghenion wedi dwysau mewn meysydd fel addysg, gwasanaethau plant a gofal cymdeithasol i oedolion. Tra bod y brif gyfradd chwyddiant wedi lleihau, mae'n dal yn effeithio ar y Cyngor oherwydd costau cynyddol darparu gwasanaethau yn sgil pwysau cyflogau, gofal a gomisiynir, bwyd a thanwydd ac ati.

4.2.2 Mae'r pwysau presennol sydd wedi'u cynnwys yng nghyllideb 2025/26 yn dod i £21.325 miliwn. Mae hyn yn cyfateb i 8% o gyllideb 2024/25 a'r drydedd flwyddyn yn olynol i'r pwysau fod yn fwy nag £20 miliwn. Mae'r manylion i'w gweld isod:

| **Pwysau** | **£miliwn** | **Disgrifiad** |
|---|---:|---|
| Cyflogau | 3.000 | Amcangyfrif bod dyfarniad cyflog mis Ebrill 2025 staff nad ydynt yn gweithio mewn ysgol yn 3.8% yn unol ag amcangyfrif twf cyflogau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer 2025/26. |
| Cynnydd yng nghyfraniadau YG cyflogwyr | 2.733 | Staff nad ydynt yn gweithio mewn ysgol – a gyflogir yn uniongyrchol |
| Graddfeydd Cyflog | -1.760 | Gweler y paragraff isod |
| Gofal Cymdeithasol i Oedolion | 4.165 | Mae'r rhagolygon o gostau cynyddol a ddiweddarwyd fis Hydref 2024 yn cael eu diweddaru eto i adlewyrchu'r cynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol a chyfraniadau YG cyflogwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Plant | 4.284 | Rhagolwg yn seiliedig ar leoliadau presennol (Hydref 2024) ac amcangyfrifon ar gyfer cynnydd ar sail chwyddiant. Tybir na fydd lleoliadau preswyl ychwanegol. |
| Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol | 1.667 | Cynnydd yn y gyllideb ailgylchu a gwastraff fel y cytunwyd arno gan y Cabinet fis Hydref 2024, £1.067 miliwn. Cynnydd yng nghostau cynnal a chadw priffyrdd yn y gaeaf, £0.600 miliwn. |
| Ysgolion | 5.586 | Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer dyfarniadau cyflog staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu o 3.8%, YG cyflogwyr a chytundebau lefel gwasanaeth hamdden. Hefyd, mae'n cynnwys cyllid am 0.5% i gwrdd â'r diffyg yn nyfarniad cyflog mis Medi 2024. |
| Ysgolion – Demograffeg | -0.480 | Adlewyrchu gostyngiad cyffredinol ym mis Medi 2024 yn nifer y disgyblion a ddefnyddir yn y fformiwla ariannu ysgolion. |
| Ardoll Tân | 0.500 | Caiff Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ei ariannu gan ardoll gan chwe chyngor gogledd Cymru sy'n seiliedig ar eu poblogaeth. Caiff yr ardoll ei gosod gan yr Awdurdod Tân, nid y cynghorau, ac mae'n rhaid ei thalu. Amcangyfrifir y bydd yr ardoll yn cynyddu 7%. |
| Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor | 0.500 | Cafodd cyllid ar gyfer Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor ei drosglwyddo i'r setliad rai blynyddoedd yn ôl ac nid yw wedi cynyddu. Felly mae angen cyllid ar gyfer y costau ychwanegol yn sgil y cynnydd yn Nheth y Cyngor. |
| Buddsoddi mewn blaenoriaethau | 0.250 | Effaith costau ad-dalu benthyciadau'r rhaglen gyfalaf a llog – mae'r pwysau hwn yn ymwneud yn benodol â'r Strategaeth Hinsawdd a Natur. |
| Arall | 0.508 | Mynegeio contractau corfforaethol a chostau |
| Trosglwyddiadau i mewn / allan | 0.372 | Cynnydd ar gyfer Neb wedi'i Adael Allan ac atal digartrefedd llai gostyngiadau ar gyfer y rhaglen rheoli risg arfordirol. |
| **Cyfanswm Pwysau** | **21.325** | |

4.2.3 **Pwysau Graddfeydd Cyflog** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae cynnydd i'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn sgil lefelau uchel o chwyddiant wedi effeithio ar strwythur cyflogau'r Cyngor. Mae'r graddfeydd wedi'u cywasgu ym mhen isaf y strwythur oherwydd bod rhai o bwyntiau'r golofn gyflogau wedi'u tynnu ac mae yna angen cynyddol i adolygu'r strwythur. Mae'r pwysau, er ei fod yn dal wedi'i gynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor

Canolig, wedi’i wthion ôl i adlewyrchu’r ymrwymiad sydd wedi’i wneud gan y cyflogwyr cenedlaethol yn ystod y trafodaethau cyflog diweddar i ail-ddylunio'r colofnau cyflog cenedlaethol a’r amser y gall hynny gymryd. Mae’r Cyngor yn cydnabod yr angen i adolygu ei strwythur cyflogau ond ni fyddai’n ymarferol cynnal yr adolygiad hwnnw tra bod newidiadau i’r golofn gyflogau yn yr arfaeth.

4.2.4 Mae gwaith yn parhau ar ailddiffinio’r pwysau cyllidebol i’w cynnwys yn yr adroddiad olaf ar osod y gyllideb, yn enwedig ar y gyllideb gofal cymdeithasol i oedolion.

4.2.5 Mae’r cynnydd yng nghyfraniadau YG cyflogwyr o fis Ebrill 2025 wedi’i gynnwys fel pwysau cost ar wahân ar gyfer gweithwyr nad ydynt yn gweithio mewn ysgolion ac o fewn y ffigwr ysgolion ar gyfer gweithwyr sy’n cael eu cyflogi’n uniongyrchol gan ysgolion. Fel yr eglurir uchod, mae gwaith yn parhau ar fireinio’r pwysau ariannol mewn perthynas â gofal cymdeithasol, sy’n cynnwys effaith y cynnydd mewn YG. Fel y nodir yn yr adroddiad (paragraff 4.1.6), rhagwelir y bydd y cyllid gan y llywodraethau i gwrdd â’r costau ond nid yw hynny wedi’i gadarnhau eto.

4.2.6 Mae’r rhan fwyaf o’r pwysau sy’n wynebu’r Cyngor y tu allan i’w reolaeth, er enghraifft, caiff chwyddiant cyflogau ei bennu’n genedlaethol ac mae’n rhaid i’r Cyngor gyflawni ei ddyletswyddau statudol i ddarparu gwasanaethau seiliedig ar alw fel gofal cymdeithasol ac ati.

**4.3 Gosod cyllideb fantoledig yn 2025/26**

4.3.1 Mae’r amcangyfrif diweddaraf o’r gofyniad cyllidebol ychwanegol ar gyfer 2025/26 yn £21.325 miliwn. Mae hyn yn fwy na’r cynnydd yn y cyllid y bydd y Cyngor yn ei gael drwy setliad Llywodraeth Cymru. Byddai angen cynnydd o oddeutu 11% yn y setliad drafft er mwyn ariannu’r pwysau hyn i gyd. Felly mae’r gwaith o osod cyllideb fantoledig ar gyfer 2025/26 yn dal yn gofyn am gyfuniad o arbedion a chynnydd yn Nhreth y Cyngor.

4.3.2 Fel sydd wedi’i adrodd yn barod, y dull a nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i osod cyllidebau mantoledig dros y blynyddoedd nesaf yw’r angen i ganfod arbedion a buddsoddi mewn prosiectau trawsnewidiol. I gyflawni arbedion yn 2025/26 mae canran targed wedi’i gyhoeddi i bob gwasanaeth ac mae gwasanaethau wedi bod yn gweithio tuag at gyrraedd eu targed ochr yn ochr â chydbwyso’r effaith ar ddarpariaethau, y mae llawer ohonynt yn statudol. Cafodd arbedion arfaethedig o £4 miliwn eu cynnwys mewn adroddiad i’r Cyngor fis Tachwedd 2024, wedi’u datblygu’n drylwyr gan Aelodau Arweiniol a Phenaethiaid Gwasanaeth. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu arbedion

pellach ar gyfer gosod cyllideb 2025/26, a bydd y rhain yn cael eu hystyried gan y Cabinet a'r Cyngor fis Chwefror 2025.

**4.4 Sylwadau ac adborth ar adolygiadau'r Strategaeth a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig gan bwyllgorau eraill**

4.4.1 Cafodd trydydd adroddiad ar y Strategaeth/Cynllun Ariannol Tymor Canolig ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fis Rhagfyr 2024. Dyma'r adborth a ddarparwyd i'r Cabinet:

- Ystyried cyflwyno dewis amgen i fantoli'r gyllideb o fewn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, yn gyfan gwbl drwy gynyddu Treth y Cyngor, gan adlewyrchu'r pwerau gwahanol sydd ar gael i gynghorau Cymru o gymharu â rhai Lloegr lle ceir cap ar Dreth y Cyngor. Roedd y pwyllgor yn sylweddoli bod yr opsiwn hwn yn un annymunol yn wleidyddol oherwydd yr effaith ar breswylwyr ond roedd yn credu ei fod yn bwysig i Aelodau ddeall yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt a risgiau a manteision pob opsiwn
- Canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau statudol a chael dealltwriaeth glir o beth ydynt cyn gosod cyllidebau
- Mae'r Cyngor yn parhau i wneud popeth o fewn ei allu i roi gwybod i breswylwyr am y dewisiadau sy'n rhaid i'r Cyngor eu gwneud a goblygiadau'r dewisiadau hynny

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau'r Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn gosod y sail ar gyfer gweithgarwch ym mhob maes. Mae'r cynigion hyn yn cynnwys dyraniadau i ddal i gefnogi blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Fel y nodir yn yr adroddiad.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Cwblhawyd Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer pob cynnig arbedion mawr wrth osod cyllideb 2024/25. Cafodd pob asesiad ei goladu a’i adolygu gan swyddogion cynllunio strategol a pherfformiad. Gwnaed hyn i amlygu unrhyw themâu a phatrymau sy’n dod i’r amlwg ac er mwyn rhoi diweddariadau rheolaidd ar yr effaith gyfanredol mewn perthynas â phob un o’r nodau lles. Byddai hyn hefyd yn dangos a oedd yr arbedion yn effeithio’n anghymesur ar unrhyw grŵp gwarchodedig penodol. Cafodd y rhain eu coladu i ffurfio Asesiad cyffredinol o Effaith ar Les ar yr holl fesurau ynghlwm â gostyngiadau i’r gyllideb. Diweddarwyd hyn trwy gydol 2024/25.

7.2. Rhoddir proses debyg ar waith wrth osod cyllideb 2025/26.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Yn ogystal â’r adroddiadau rheolaidd i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a’r Pwyllgor Craffu Perfformiad, cafodd proses y gyllideb ei hystyried gan y Tîm Arwain Strategol, yng nghyfarfodydd Briffio’r Cabinet, gan Arweinwyr Grŵp ac yng nghyfarfodydd Briffio’r Cyngor. Mae’r Fforwm Cyllideb Ysgolion wedi’i gynnwys yn y cynigion drwy gydol y flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy’r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae’r Cyngor, ynghyd â phob cyngor arall yng Nghymru, yn wynebu heriau ariannol digynsail. Nod Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, sydd wedi bod yn destun adroddiadau rheolaidd i wahanol bwyllgorau, yw sicrhau bod y Cyngor yn gosod cyllidebau mantoledig yn y dyfodol. Bydd nodi manylion a goblygiadau setliad dros dro Llywodraeth Cymru yn yr adroddiad hwn o gymorth i sicrhau bod y Cyngor yn meddu ar wybodaeth gyflawn ac yn barod i osod cyllideb yn ystod y cyfnod heriol hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae’r broses gyllidebol ynddi ei hun yn ddull o reoli risg, gyda’r nod o lunio cynigion ar gyfer y gyllideb, eu hasesu a chytuno arnynt mewn ffordd drefnus a phrydlon. Byddai

peidio â chytuno ar y cynigion hyn heb gynnig cynigion posib' eraill yn golygu risg na fyddai cyllideb fantoledig ar gyfer 2024/25.

10.2 Bydd dadansoddiad manwl o'r risgiau a'r camau i leihau'r risgiau hynny yn cael ei ddarparu yn yr adroddiad olaf ar y gyllideb i'r Cabinet fis Chwefror 2025.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.